**<u>Cyngor Cymuned Ganllwyd</u>**

**<u>Cofnodion cyfarfod Nos Fercher Chwefror 13eg 2019.</u>**

**<u>Presennol.</u>**

Cyng D.Morris, Cyng S.Roberts,Cyng D.Morris, Cyng G.Hughes.

**<u>Ymddiheuriadau</u>**

Cyng P.Jenkins.

**Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 9fed Ionawr 2019.**

Cynigwyd yn gywir gan Cyng Roberts yn cael ei eilio gan Cyng Morris.

**Materion yn codi-nid ar yr agenda.**

Mae Banc yr HSBC wedi cwblhau gwaith “safeguarding” yn ymwneud a cyfrif banc y cyngor a maent yn fodlon ar sut mae'r cyfrif yn cael ei redeg.

Nid yw’r cyngor wedi derbyn ad-daliad gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ymwneud a gwaith trydanol wrth osod y diffibrilydd. Clerc i gysylltu’n bellach ar asiant.

**Cynghorydd Sir.**

Nid oedd y cynghorwr yn bresennol ond gofynnodd i’r clerc roi gwybod i’r cyngor nad oedd Cyngor Gwynedd wedi ymateb i'r pwyntiau a godwyd gan Cylch yr Iaith o ran twristiaeth yng Ngwynedd. Byddai'n diweddaru'r cyngor ar ol derbyn gwybodaeth.

**Biniau halen.**

Yn dilyn y tywydd oer, mae’r cynghorwyr wedi derbyn gwybodaeth gan y cyhoedd fod angen llenwi rhai o’r biniau halen o fewn y plwyf.

Mae’r clerc wedi derbyn gwybodaeth fod Cyngor Gwynedd yn gofyn am £60 i lenwi pob bin.

Codwyd 2 brif bwynt;

Costau a materion diogelwch sy'n ymwneud â llenwi biniau halen-

Mae'r cynghorwyr yn credu y dylai Cyngor Gwynedd fod yn gyfrifol am lenwi'r biniau halen a chwrdd â'r costau sy'n ymwneud a hyn.

Os bydd Gaeaf caled, teimlai'r cynghorwyr na fyddai'r cyngor cymuned yn gallu fforddio'r costau o ail-lenwi biniau halen.

e.e bydd costau llenwi'r 11 bin yn yr ardal 2 waith trwy'r Gaeaf yn £1320.

Nid yw'r gost o'r fath yn gynaliadwy ar sail praesept o £ 3000.

Mae'r cyngor yn teimlo bod y cyfrifoldeb iechyd a diogelwch defnyddwyr y ffordd wedi cael ei drosglwyddo o Gyngor Gwynedd i'r cyngor cymuned. Byddai'r cyngor cymuned yn hapus i gynorthwyo'r Cyngor i nodi y biniau sydd angen eu hail-lenwi, tra'n teimlo y dylai Cyngor Gwynedd fod yn gyfrifol am hyn.

Protocol- Pan mae'r cyngor yn cael gorchymyn gan aelod o'r cyhoedd bydd y sawl sydd yn derbyn y gorchymyn yn cysylltu ar clerc.

Bydd y clerc yn dosbarthu e-bost i bob cynghorwyr ac os nad oes gwrthwynebiad bydd y clerc yn cysylltu hefo Cyngor Gwynedd yn dymuno fod y bin mewn cwestiwn yn cael ei lenwi.

**Materion ariannol.**

Cyllid misol:

**Cyson Banc: Ionawr 2019**

| | |
|---|---|
| **Yn y Banc ar ddechrau'r Mis:** | **£5455.47** |
| **Derbyniwyd:** | |
| **Dim** | |
| **Taliadau:** | |
| **Cyflog/Paye** | **£100.00** |
| **Archwilydd BDO** | **£438.30** |
| **Yn y banc diwedd mis** | **£4917.17** |

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg ariannol y cyngor.

Rhoddion-

Derbyniodd y cyngor y rhoddion isod;

£300 gan Ganolfan Beicio Coed y Brenin.

£400 gan Matt Ward.

TAW.

Yn unol â rheoliadau newydd gan HMRC mae'r cyngor cymuned wedi cofrestru ar-lein mewn perthynas â thrafodion vat.

**Awdit Mewnol.**

Mae swyddfa archwilydd Cyngor Gwynedd wedi cytuno cwblhau awdit mewnol y cyngor cymuned.

**Rheoleiddiwr Pensiynau.**

Derbyniwyd llythyr gan yr uchod yn cadarnhau bod y cyngor wedi cwblhau eu dyletswyddau mewn perthynas â phensiynau eu gweithwyr.

**Arolwg Strategaeth Ariannol Cyngor Gwynedd.**

Yn y flwyddyn ariannol 2019/20 bydd Cyngor Gwynedd yn gwynebu bwlch ariannol o £13miliwn, mae'r cyngor wedi cymryd camau i ddod a'r ffigwr yma i lawr i £6.8 miliwn a trwy leihau costau swyddfa gefn bydd yn bosib arbed swm bellach o oddeutu £2 miliwn sydd yn gadael bwlch o £4.8 miliwn.

Mae gan y Cyngor ddau opsiwn i gwrdd a'r bwlch yma sef;

- Cynyddu Treth Cyngor
- Gwireddu mwy o arbedion ariannol.

Cyn i gynghorwyr Gwynedd gytuno ar lefel treth cyngor mae yna gyfle i aelodau'r sefydliad yma fynegi barn ar y cynigion manwl sydd dan ystyriaeth trwy lenwi holiadur ar-lein.

**Llythyrau & e-bost.**

Parc Cenedlaethol- derbyniwyd gwybodaeth gan y Parc yn hysbysu bod yr awdurdod wedi cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd ar yr archwiliad i Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Eryri 2016-2031

Mae adroddiad yr Arolygydd yn llyfrgell Dolgellau, swyddfa’r Parc ac ar-lein.

Heddlu’r Gogledd- Mae’r clerc wedi dosbarthu gwybodaeth i’r cynghorwyr ynglyn diwygiad i’r Cynllun Heddlu a Throsedd 2017-21

Derbynwyd e-bost gan Cyngor Gwynedd yn ymwneud ac adolygiad o drafnidiaeth cyhoeddus yng Ngwynedd. Mae copi o'r e-bost wedi'i adael ar fwrdd hysbysu'r pentref at sylw pobl lleol.

**Unrhyw Fater Arall.**

Cyng Morris i gysylltu a Mr Ifan Tomos er mwyn atgyweirio'r fainc bren yn Derwen Deg, Ganllwyd.

Cyng Dixon yn hysbysu fod ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus yn ardal Afonwen Ganllwyd. Clerc i hysbysu'r Heddlu lleol a swyddogion CNC mewn perthynas â'r digwyddiadau hyn.